Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Croeso i'r wybodaeth ddiweddaraf am y Pwyllgor

Bwriedir i'r wybodaeth ddiweddaraf hon am weithgareddau diweddar y pwyllgor a gweithgareddau yn y dyfodol ehangu cyfranogiad yng ngweithgareddau'r Pwyllgor a'ch helpu i ddarparu gwybodaeth ac arbenigedd i swyddogion ac Aelodau. Cafodd ei lunio gan y tîm clercio sy'n cefnogi gwaith y Pwyllgor.

Mae llif Twitter y Pwyllgor **@SeneddESS** yn cynnwys ein holl newyddion diweddaraf, a manylion am ymchwiliadau a chyfarfodydd.

Yn sgil ad-drefnu'r Cabinet, mae aelodaeth y Pwyllgor wedi newid. Gallwch weld yr aelodaeth ddiweddaraf ar ddiwedd y cylchlythyr hwn.

Gwaith a gyflawnwyd yn nhymor yr hydref 2017

Bargeinion Dinesig ac Economïau Rhanbarthol Cymru

Ar 2 Tachwedd, cyhoeddodd y Pwyllgor ei **adroddiad** (PDF 2MB) a oedd yn cynnwys 11 argymhelliad a 7 casgliad.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei **hymateb** (PDF 129KB) ym mis Rhagfyr a derbyniodd y rhan fwyaf o argymhellion yr adroddiad.

Cynhelir dadl ar yr adroddiad, ac ymateb Llywodraeth Cymru iddo yn y Cyfarfod Llawn ar 24 Ionawr.

Gwerthu Cymru i'r Byd

Cynhaliodd y Pwyllgor ymchwiliad i edrych ar y cysyniad o **Werthu Cymru i'r Byd** ac i edrych ar yr hyn a wnaed hyd yma, a'r hyn y gellid ei wneud yn y dyfodol o ran masnach, twristiaeth a sgiliau/hyfforddiant.

Yn dilyn ymgynghoriad, lle daeth 17 o ymatebion i law, clywodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan **Brifysgolion Cymru** a gan baneli a oedd yn cynrychioli'r sectorau **addysg**, **masnach** a **thwristiaeth**.

Bu'r Pwyllgor yn craffu ar waith **Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith** ar 19 Hydref.
Er mwyn deall yn well y gefnogaeth sy'n cael ei chynnig i allforwyr a rôl swyddogion tramor, ymwelodd y Pwyllgor â Brwsel ym mis Hydref i gyfarfod â chynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, swyddfa Prifysgolion Cymru ym Mrwsel a llysgenadaethau gwledydd eraill.

Mae'r adroddiad yn cael ei ddrafftio ar hyn o bryd a disgwylir iddo gael ei gyhoeddi yn ddiweddarach y tymor hwn.

Masnachfraint Rheilffyrdd a Chyflwyno Metro

Arweiniodd y Pwyllgor ddadl ar ei adroddiad – **Ar y trywydd iawn? Masnachfraint y**

Rheilffyrdd a Metro De Cymru (PDF 1MB) yn Siambr y Senedd ar 27 Medi.

Mae fideo o'r sesiwn i'w weld ar **Senedd.tv**, ac mae'r **trawsgrifiad** hefyd ar gael. Yn ei **ymateb** (PDF 176KB), fe wnaeth Ysgrifennydd y Cabinet dderbyn neu dderbyn mewn egwyddor bob un o argymhellion y Pwyllgor.

Craffu ar waith Gweinidogion

Ar 27 Medi, cynhaliodd y Pwyllgor sesiynau craffu gyda'r **Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth**; ac **Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith** ar feysydd pwnc eang eu portffolios priodol.

Effaith Tagfeydd ar Wasanaethau Bysiau

Arweiniodd y Pwyllgor ddadl ar ei adroddiad - **Tawelu'r traffig: Effaith tagfeydd ar wasanaethau bysiau** (PDF 900KB) yn Siambr y Senedd ar 11 Hydref.

Mae fideo o'r sesiwn i'w weld ar **Senedd.tv**, ac mae'r **trawsgrifiad** hefyd ar gael. Yn ei **ymateb** (PDF 210KB), derbyniodd Ysgrifennydd y Cabinet bob un o argymhellion y Pwyllgor.

Cyllid Cymru / Banc Datblygu Cymru

Ar 25 Hydref, craffodd y Pwyllgor ar waith **Cadeirydd a Phrif Weithredwr Banc Datblygu Cymru** o ran y perfformiad fel yr amlinellwyd yn Adroddiad Blynyddol Cyllid Cymru 2016-17.

Roedd hefyd yn gyfle i ystyried y trosglwyddo o Cyllid Cymru i Fanc Datblygu Cymru, a lansiwyd ar 18 Hydref.

Yn dilyn y sesiwn, ysgrifennodd y **Pwyllgor at Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith** ym mis Tachwedd gyda thri argymhelliad - **y derbyniodd bob un ohonynt**.

Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19

Ar 15 Tachwedd, cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn graffu gyda'r **Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth** ar y Gymraeg.
Cynigion cyllideb ddrafft y Llywodraeth 2018-19.

Oherwydd amgylchiadau annisgwyl, cynhaliwyd sesiwn graffu gychwynnol ar waith Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith yn ysgrifenedig. Cynhelir sesiwn ddilynol ar 17 Ionawr.

Cyhoeddodd y Pwyllgor **adroddiad byr ar y gyllideb ddrafft** (PDF 248KB), gan amlygu nifer o faterion o bwys.

Seilwaith Digidol yng Nghymru

Arweiniodd y Pwyllgor ddadl ar ei adroddiad - **Seilwaith Digidol Cymru** (PDF 803KB) yn Siambr y Senedd ar 22 Tachwedd.

Mae fideo o'r sesiwn i'w weld ar **Senedd.tv**, ac mae'r **trawsgrifiad** hefyd ar gael. Yn ei **hymateb** (PDF 151KB), fe wnaeth Gweinidog dderbyn neu dderbyn mewn egwyddor bob un o argymhellion y Pwyllgor.

Prentisiaethau yng Nghymru 2017 / Gyrfa Cymru

Yn dilyn peth beirniadaeth am Gyrfa Cymru a leisiwyd yn ymchwiliad diweddar y Pwyllgor ar Brentisiaethau yng Nghymru 2017, **fe wnaeth y Pwyllgor eu gwahodd yn ôl ar 23 Tachwedd i graffu ymhellach ar y gwaith mae'n gwneud.**

Mae'r Pwyllgor wrthi'n drafftio adroddiad ar Brentisiaethau yng Nghymru 2017 y disgwylir iddo gael ei gyhoeddi y tymor hwn ac sy'n cyfeirio at waith Gyrfa Cymru.

Comisiynydd Traffig i Gymru

Ar 29 Tachwedd, craffodd y Pwyllgor ar waith Comisiynydd Traffig i Gymru ar ei adroddiad blynyddol cyntaf i Lywodraeth Cymru. Cynhelir sesiwn graffu ar waith y Comisiynydd Traffig yn flynyddol.

Deall rheilffyrdd

Ceisiodd y Pwyllgor gryfhau ei ddealltwriaeth am faterion ar reilffyrdd.
Ar 19 Hydref, ymwelodd y Pwyllgor â depo Treganna Trenau Arriva Cymru i gwrdd â'r Rheolwr Gyfarwyddwr newydd a swyddogion personél eraill i drafod gwaith cynnal a chadw fflyd a'r heriau yn sgil amodau tywydd yr hydref.

Ar 29 Tachwedd, cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn holi ac ateb breifat gyda Chadeirydd Network Rail, Syr Peter Hendy, a staff allweddol eraill Network Rail.

Adfywio canol trefi - 5 mlynedd yn ddiweddarach

Ar 7 Rhagfyr, **craffodd y Pwyllgor ar waith y Gweinidog Tai ac Adfywio** ar adfywio canol trefi fel dilyniant i'r gwaith a wnaed gan y Pwyllgor Menter a Busnes blaenorol yn 2012.

Cyn y cyfarfod ffurfiol gyda'r Gweinidog, cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn anffurfiol gyda rhanddeiliaid i glywed eu barn ar y prif faterion sy'n wynebu canol trefi yng Nghymru.

Mae adroddiad byr wrthi'n cael ei ddrafftio a disgwylir iddo gael ei gyhoeddi yn fuan.

Gweithgareddau'r Pwyllgor ar gyfer tymor y gwanwyn 2018

Nodwch y gall y wybodaeth am ddyddiadau a phynciau ymchwiliadau newid wrth i flaenoriaethau newydd godi.

Gellir gweld gwybodaeth ddiweddar yma: **http://www.assembly.wales/cy/bus-home/committees/Pages/Committee-Profile.aspx?cid=446**

Cyflymu Cymru / Cynllun gweithredu digidol Llywodraeth Cymru

Bydd y Pwyllgor yn cynnal sesiwn ffurfiol â chynrychiolwyr BT i drafod p'un a ydynt wedi bodloni eu gofynion cytundebol o dan raglen Cyflymu Cymru ac i drafod y materion ehangach ynghylch cyfathrebu a chynllunio'r rhaglen.

Bydd y Pwyllgor yn cynnal sesiwn craffu gydag Arweinydd y Tŷ ar Cyflymu Cymru a chynllun gweithredu digidol Llywodraeth Cymru.

Mae'r sesiynau wedi'u trefnu ar gyfer 25 Ionawr.

Pwerau newydd: Posibiliadau newydd

– O dan y Ddeddf Llywodraeth Cymru ddiweddaraf, a ddaw i rym ar 1 Ebrill 2018, bydd gan y Llywodraeth bwerau newydd dros drafnidiaeth.

  Bydd y Pwyllgor yn cynnal cyfres o weithdai yn gwahodd arbenigwyr yn y meysydd perthnasol i drafod y ddeddfwriaeth a pha faterion y gellid mynd i'r afael â nhw **Mae pynciau arfaethedig y gweithdy yn cynnwys cofrestru bysiau, llogi tacsis/cerbydau preifat, porthladdoedd a therfynau cyflymder.**

  Cynhelir y gweithdy cyntaf ar 17 Ionawr.

Ardaloedd Menter

– **Bydd y Pwyllgor yn parhau i graffu ar y maes polisi hwn** drwy gynnal sesiynau tystiolaeth ffurfiol gyda Chadeiryddion y byrddau Ardaloedd Menter, a sesiwn gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith ar 14 Chwefror.

  Mae'r Pwyllgor yn bwriadu ymweld â Chadeiryddion y byrddau Ardaloedd Menter yn y gogledd. Byddai hyn hefyd yn rhoi cyfle i'r Aelodau siarad â busnesau sydd wedi'u lleoli yn yr ardaloedd.

Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 - Craffu ôl-ddeddfwriaethol

– Bydd y Pwyllgor yn cynnal gwaith craffu ôl-ddeddfwriaethol i adeiladu ar y gwaith craffu cychwynnol gan y Pwyllgor Menter a Busnes blaenorol (Teithio Llesol: dechrau'r daith - Chwefror 2016).

  Cyhoeddodd y Pwyllgor **ymgynghoriad** sy'n dod i ben ar 14 Chwefror ac mae hefyd yn cynnal arolwg cyhoeddus a grwpiau ffocws i gasglu tystiolaeth bellach. Cynhelir y sesiynau tystiolaeth lafar ym mis Mawrth.

Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol i Gymru

– Y wybodaeth ddiweddaraf: Hysbysebwyd y swydd cyn y Nadolig ac mae'r Pwyllgor bellach yn disgwyl cynnal gwrandawiad cyn-penodi ar gyfer y Cadeirydd arfaethedig newydd yn ystod tymor yr haf. Roedd y gwrandawiad yn un o argymhellion (Rhif 6) **adroddiad** (PDF 610kb) y Pwyllgor a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2017.

Craffu ar y gyllideb ddrafft a Chynllun Gweithredu Economaidd newydd y Llywodraeth

– Bydd y Pwyllgor yn cynnal sesiwn graffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru a'r Cynllun Gweithredu Economaidd newydd gydag

Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith ar 17 Ionawr.

Robotiaid a'r Economi / Dyfodol ar gyfer Sgiliau - Sesiynau arwain meddwl

– Mae'r Pwyllgor yn bwriadu gwahodd arbenigwyr i drafod y materion hyn yn ystod y tymor.

Yr Ardoll Brentisiaeth yng Nghymru - sesiwn ddilynol

– Bydd y Pwyllgor yn ysgrifennu at randdeiliaid allweddol i ddilyn **ymchwiliad y Pwyllgor ar yr Ardoll Brentisiaethau** yn y cyfnod yn arwain at flwyddyn ers ei chyflwyno ar 1 Ebrill.

Bargeinion Dinesig ac Economïau Rhanbarthol Cymru

– Cynhelir dadl ar **adroddiad** (PDF 2MB) y Pwyllgor ac **ymateb** (PDF 129KB) y Pwyllgor yn y Cyfarfod Llawn ar 24 Ionawr.

Cylch gwaith

Cafodd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ei sefydlu ar 28 Mehefin 2016 i archwilio deddfwriaeth ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar ei gwariant, ei gweinyddiaeth a'i pholisïau, gan gwmpasu'r meysydd a ganlyn (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt): datblygu economaidd; trafnidiaeth; seilwaith; cyflogaeth; sgiliau; a gwaith ymchwil a datblygu, gan gynnwys technoleg a gwyddoniaeth.

Manylion cyswllt

Gallwch gysylltu â'r tîm clercio drwy e-bost: **SeneddESS@Cynulliad.Cymru**

Ffoniwch ni: **0300 200 6565**

Dilynwch ni ar Twitter: **@SeneddESS**

Gwefan: **www.cynulliad.cymru/seneddess**

Aelodau'r Pwyllgor

Russell George AM
Welsh Conservatives (Chair)

Hefin David AM
Welsh Labour

Vikki Howells AM
Welsh Labour

Mark Isherwood AM
Welsh Conservatives

Adam Price AM
Plaid Cymru

David J Rowlands AM
UKIP Wales

Lee Waters AM
Welsh Labour

Joyce Watson AM
Welsh Labour